# PIERCE, THOMAS MORDAF (1867? - 1919), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur

**Enw:** Thomas Mordaf Pierce
**Dyddiad geni:** 1867?
**Dyddiad marw:** 1919
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 23 Rhagfyr 1867 (?), yn Abererch, Sir Gaernarfon. Dechreuodd bregethu yn 1886, aeth i ysgol Clynnog yn 1887, ac i Goleg y Bala yn 1888. Bu'n gweinidogaethu yn Llanfairfechan (1891), Llanidloes (1895), a Dolgellau (1910). Priododd ddwywaith. Bu farw 13 Mai 1919 yn Nolgellau.

Cyhoeddodd *Y Parchedig Humphrey Gwalchmai, y Bugail Cyntaf yng Nghyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd. Gyda threm ar hanes dechreuad yr Achos yn Nosbarth Llanidloes* (Llanidloes, 1908; arg. arall yn 1909), a *Dr. W. Owen Pughe* (Caernarfon, 1914), sef traethawd a ysgrifennodd ar gyfer eisteddfod Meirion, 1913. Casglodd ynghyd ddefnyddiau ar gyfer gweithiau eraill - hanes crefyddol a threfol Llanidloes a Dolgellau, hanes Millsiaid Llanidloes; gweler e.e. NLW MS. 6173, 6175-9, 6183-9.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, am 1920 (cyhoeddwyd 1919)

*Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, ii

*The Montgomeryshire Express*, 20 Mai 1919


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748881

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu